

COFNODION BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR A GYNHALIWYD AR 25 MEHEFIN 2020

RHITH-GYFARFOD

| Rhif Age nda | Nodiadau | Camau Gweithr edu |
|--------------------|--|-------------------------|
| | <p>YN BRESENNOL: Roger Lewis (yn y Gadair); Carol Bell (Is-lywydd); Hywel John (Trysorydd); Carys Howell; Catherine Duigan; Glenda Jones; Gwyneth Hayward; Hywel Ceri Jones; Kay Andrews; Madeleine Havard; Michael Prior; Rachel Hughes; Rob Humphreys; Robert Pickard; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu; Janice Lane, Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad Ymwelwyr; Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil; Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>ERAILL YN Y CYFARFOD: Richard Nicholls, Cyfarwyddwr Datblygu; Catrin Taylor, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, Paul Twamley, Cadeirydd y Bwrdd Datblygu; Gwen Williams, Cadeirydd y Cyfeillion; Rheon Tomos, aelod allanol o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd; Paul Kindred, Dirprwy'r Is-adran a Phennaeth Strategaeth a Llywodraethu, Diwylliant a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru.</p> | |
| | <p>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</p> <ul style="list-style-type: none"> Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau. | |
| | <p>Yn Sesiwn Gaeëdig y cyfarfod trafododd y Bwrdd: Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Materion Cyllid, <i>Amgueddfa Cymru 2030</i>; Yr Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol; yr Amgueddfa Chwaraeon; Benthyciadau Rhyngwladol, adroddiad arolwg Hunanarfarnu'r Bwrdd.</p> <p>Ar y pwynt hwn, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.</p> | |
| 1 | <p>GAIR O GROESO AC YMDDIHEURIADAU</p> <p>Croesawodd Roger Lewis bawb i'r cyfarfod. Croesawyd Sian Wiblin, Cynrychiolydd Undeb y PCS oedd yn Arsylwi. Nodwyd bod Maria Battle yn absennol.</p> | |
| 2 | <p>COFNODION</p> <p><u>Penderfynwyd:</u> Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2020 eu cymeradwyo.</p> | |
| 3 | <p>MATERION YN CODI</p> <p>UFA – Roedd y cyfarfod i fwrw ymlaen â'r Rhaglen Blaenoriaethau Diwylliannol â Llywodraeth Cymru a phartneriaid wedi'i ohirio o fis Mehefin i fis Gorffennaf.</p> | |
| 4 | <p>ADOLYGU GWEITHGARWCH</p> <p>1. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd:</u> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd:</u> Diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol i Sian Wiblin am y gefnogaeth a gafwyd gan yr Undebau mewn perthynas â rhoi staff ar ffyrlo. Nododd Sian fod hwn yn enghraifft dda iawn o'r Undebau a'r Amgueddfa'n gweithio'n gadarnhaol mewn partneriaeth. Roedd y taliad ffyrlo cyntaf wedi dod i law a diolchwyd i'r Bwrdd am y gefnogaeth a roddwyd i'r Uwch Dîm Gweithredol a'r staff. Diolchwyd i'r Ymddiriedolwyr</p> | |

| | | |
|---|---|----------|
| | <p>Rob Humphreys a Glenda Jones am eu hymrwymiad i weithio â'r Undebau. Nododd y Bwrdd y datganiad a gyhoeddwyd gan yr Amgueddfa mewn ymateb i fudiad Mae Bywydau Du o Bwys.</p> <p>1.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod papur briffio'n cael ei ddrafftio yn nodi safbwynt yr Amgueddfa mewn perthynas â'i ddatganiad ar fudiad Mae Bywydau Du o Bwys. Bod cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng yr Undebau, yr Ymddiriedolwyr Rob Humphreys a Glenda Jones, a Chyfarwyddwyr perthnasol.</p> <p>2. ADRODDIAD AR BERFFORMIAD CYNLLUN GWEITHREDOL CHWARTER 4</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol gyflawniadau'r Amgueddfa ar ddiwedd y flwyddyn, er bod yr Amgueddfa wedi wynebu cyfnod o gyfyngiadau symud yn ystod wythnosau olaf y flwyddyn ariannol.</p> <p>2.3. Diolchodd y Bwrdd i'r staff am y perfformiad rhagorol am y flwyddyn.</p> <p>2.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd yr adroddiad.</p> <p>3. DANGOSFWRDD</p> <p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr yr hyn a gyflawnwyd a bod yr incwm masnachol yn agos at gyflawni ei darged cyn y cyfnod o gyfyngiadau symud. Nododd y Bwrdd y meysydd y byddid yn bwrw ymlaen â nhw yn y flwyddyn ariannol nesaf, ac y byddai angen monitro cynnydd o ran y rhain yn y modd arferol a'u diwygio yn unol â hynny. Cyflawnwyd yr holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol am y flwyddyn. Roedd perfformiad cyfryngau cymdeithasol yr Amgueddfa'n cael ei fonitro yn erbyn sefydliadau eraill.</p> <p>3.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd yr adroddiad.</p> | DA NW |
| 5 | <p>ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYLLID</p> <p>1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>2. <u>Adroddwyd</u>: Cafwyd perfformiad da hyd yma, gyda gwaith rheoli ariannol cadarn ar draws pob maes. Roedd yr adroddiad yn cynrychioli dadansoddiad dros dro yn nodi effaith rhoi staff ar ffyrlo. Roedd yr Amgueddfa wedi cael gwybod am doriad o 2% yn ystod y flwyddyn i'r Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru, a fyddai'n golygu y byddai cronfeydd wrth gefn yr Amgueddfa'n rhedeg allan yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd yr Amgueddfa'n gweithredu diffyg strwythurol a byddai rhagolygon newydd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf.</p> <p>3. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod trafodaethau'n cael eu cynnal ar lefel Llywodraeth y DU ar ffyrdd i gefnogi'r celfyddydau a'r sector diwylliannol yn ystod y pandemig. Atgoffodd y Trysorydd y cyfarfod fod yr Amgueddfa'n elusen yn ogystal â Chorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a bod cronfeydd wrth gefn yn deillio o roddion dyngarol. Gyda Chymorth Grant yn gostwng dros y blynnyddoedd roedd yr Amgueddfa'n ddibynnol ar y cronfeydd wrth gefn hyn. Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol fod mwyafrif cronfeydd wrth gefn yr Amgueddfa wedi'u dyrannu, sy'n golygu mai'r maes yr effeithiwyd arno fwyaf oedd swm bach y cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig.</p> | |

| | | |
|---|---|-------------|
| | <p>Gyda safleoedd yr Amgueddfa ar gau nid oedd unrhyw incwm yn cael ei gynhyrchu. Nododd y Llywydd y gwaith â'r Bwrdd Datblygu.</p> <p>4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd yr adroddiad.</p> | |
| 6 | <p>GWYBODAETH DDIWEDDARAF AM COVID-19</p> <p>1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad Ymwelwyr.</p> <p>2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Bwrdd wedi nodi'r newyddion diweddaraf ac mai ardaloedd awyr agored Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan fyddai'r safle cyntaf i agor ym mis Awst. Diogelwch staff a'r cyhoedd oedd y flaenoriaeth, a bu ymgysylltu a chysylltu helaeth â'r gymuned leol. Roedd yr Amgueddfa ar hyn o bryd wrthi'n caffael y Cyfarpar Diogelu Personol, arwyddion ac offer arall angenrheidiol. Roedd yr Amgueddfa'n gweithio i'r rheol o gadw pellter cymdeithasol o 2 metr. Ni fu unrhyw gyhoeddiad o ran ailagor safleoedd amgueddfeydd eraill.</p> | |
| 7 | <p>LLYWODRAETHU</p> <p>1. MATERION A GEDWIR YN ÔL I'R BWRDD AC ADOLYGIAD O'R PWYLLGORAU</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Trafodwyd y materion yn fanwl yn y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau ym mis Mai, ac roedd y papur a gyflwynwyd yn cynnwys cyfraniadau gan Ymddiriedolwyr. Byddai cynnydd o ran adolygu'r Pwyllgorau Ymgynghorol yn cynnwys ystyried ystod a nifer y pwyllgorau oedd eu hangen ar yr Amgueddfa, a'u haelodaeth a'u cylch gorchwyl.</p> <p>1.3. Nododd yr Ymddiriedolwyr fod angen rhagor o gyweirio manwl i ddarparu sicrwydd mewn rhai meysydd.</p> <p>1.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd yn cytuno mewn egwyddor ar y Materion a Gedwir yn ôl i'r Bwrdd, y Cylch Gorchwyl ar gyfer y tri Phwyllgor Sefydlog, y camau i gwblhau'r adolygiad a'r adolygiad o'r Pwyllgorau Ymgynghorol sy'n weddill.</p> <p>2. STRATEGAETH AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT AR GYFER PENODIADAU CYHOEDDUS YNG NGHYMRU (2020-2023)</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Dogfen strategaeth gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Llywydd wedi nodi bod amrywiaeth ar y Bwrdd ar flaen ei feddwl pan gafodd ei benodi, ac y byddai'n cael ei ystyried yn ofalus fel rhan o'r broses recriwtio ar gyfer dau Ymddiriedolwr newydd.</p> <p>2.3. Nododd yr Ymddiriedolwyr y gwaith ymgysylltu â'r gymuned a wnaed yn Sain Ffagan, a'r ystod eang o leisiau oedd wedi cyfrannu at y gwaith ailddatblygu. Roedd cefnogaeth Ymddiriedolwyr ar gael i helpu annog y rhai sydd o bosibl â diddordeb datblygu eu hymgysylltiad â'r Amgueddfa i fynd â phethau ymhellach.</p> <p>2.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd y strategaeth.</p> | HJ NW EC |
| 8 | <p>CYD-DESTUN AR GYFER STRATEGAETH AMGUEDDFA CYMRU 2030</p> <p>1. YMATEB I FFRAMWAITH COVID-19</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y byddai'r papur trafod drafft yn cael ei ddatblygu ymhellach yn unol â'r Strategaeth.</p> <p>1.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a'r Ymddiriedolwyr i gyflwyno sylwadau drwy e-bost i'r Llywydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> | Pawb |

| | | |
|---|--|----|
| | <p>2. TROSOLWGW O ADRODDIAD LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL 2020</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Mai 2020, a dyma asesiad y Comisiynydd o'r modd y rhoddwyd y Ddeddf ar waith gan yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r adroddiad eang yn ymdrin â llawer o feysydd polisi ac yn cynnwys oddeutu 500 o argymhellion, gyda dros 290 ohonynt wedi'u cyfeirio at gyrff cyhoeddus. Mae gan yr Amgueddfa tan yr Hydref i ymateb. Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr yn crynhoi'r prif bwyntiau, a'r rhai oedd yn berthnasol i'r Amgueddfa. Roedd y Bwrdd yn falch o weld astudiaethau achos o'r meysydd hynny o waith yr Amgueddfa a ddathlwyd fel arfer gorau. Roedd y ffaith bod cyn lleied o sefydliadau wedi datblygu gwaith ar ddiwylliant yn eu cynlluniau yn siom ac yn gyfle. Roedd y Cyfarwyddwr yn edrych ymlaen at weld sut y byddai'r Comisiynydd yn crynhoi ac yn blaenoriaethu'r casgliadau.</p> <p>2.3. Nododd y Llywydd pa mor gyson oedd yr Amgueddfa a'i gwerthoedd â'r strategaeth hon. Roedd y sefydliad mewn sefyllfa i ddylanwadu oherwydd y modd mae'r gwaith hwn wedi'i ymgorffori yn arfer y sefydliad.</p> <p>2.4. Aeth Paul Kindred ati i longyfarch a diolch i'r Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu am greu'r crynodeb defnyddiol. Nododd gymaint yr oedd gwaith yr Amgueddfa'n cael ei werthfawrogi gan Lywodraeth Cymru oherwydd y modd mae'n cyffwrdd â phob rhan o'r gymdeithas. Roedd yn anffodus meddai bod y gwaith i ddatblygu strategaeth ddiwylliannol i Gymru wedi cael ei ohirio oherwydd y pandemig.</p> | |
| 9 | <p>STRATEGAETH, POLISI A CHYNLLUNIO</p> <p>1. STRATEGAETH INTERIM CYFATHREBU, MARCHNATA AC EIRIOLAETH</p> <p>1.1. <u>Adroddwyd</u>: Cyflwynodd y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus a Phennaeth Marchnata a Chyfathrebu y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ar gyfathrebu ac eiriolaeth fewnol ac allanol presennol.</p> <p>1.2. Nododd y Bwrdd y cafwyd oddeutu 800 o ymatebion i arolwg Casglu Covid a bod yr Amgueddfa'n anelu at gael 1000 o ymatebion.</p> <p>1.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y byddai adroddiad ar ganlyniadau arolwg Casglu Covid yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd.</p> <p>2. ASTUDIAETHAU DICHONOLDEB – AMGUEDDFA BÊL-DROED; ORIEL CELF GYFOES GENEDLAETHOL</p> <p>2.1. <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil fod y briff ar gyfer ail gam yr astudiaeth dichonoldeb wedi'i gwblhau a byddid yn gwahodd darpar gyflenwyr i gyflwyno tendrau. Nododd Paul Kindred fod Llywodraeth Cymru'n ymwybodol y byddai angen cymorth cyllid refeniw ar y project hwn, ac ni ddylid gofyn i Amgueddfa Cymru gyfrannu tuag at hyn.</p> <p>2.2. Mewn perthynas â'r Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol, roedd y ffocws wedi newid mewn ymateb i Covid-19 ac enw'r project bellach oedd Celf ar y Cyd. Roedd Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Amgueddfa'n cydweithio'n agos ar bedair cainc y project.</p> <p>2.3. Nododd Paul Kindred fod y Dirprwy Weinidog a swyddogion yn hynod ddiolchgar am yr awgrymiadau a wnaed gan yr Amgueddfa a Chyngor Celfyddydau Cymru mewn ymateb i Covid-19, ac i ystyried pa weithgarwch ychwanegol y gellid ei ddatblygu o ran darpariaeth ddigidol a darpariaeth arall i greu ymgysylltiad ystyrlon ar yr adeg hon. Y nod oedd gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a pherthnasol eleni i fywydau pobl.</p> | KD |

| | | |
|----|--|----|
| | <p>Roedd y Dirprwy Weinidog yn frwd iawn ynghylch y pedair rhaglen, ac roedd yn falch o ddarparu cyllid i gyflawni hyn. Roedd menter yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol bellach wedi'i gohirio, er y byddai'r grŵp llywio yn cyfarfod i ystyried yr heriau o ran cyfalaf a refeniw i'r orielau a nodwyd o bosibl i fwrw ymlaen â'r project.</p> <p>2.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y dylid gwneud cyflwyniad ar yr Amgueddfa Bêl-droed, yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol a Celf ar y Cyd i'r Amgueddfa ar yr adeg briodol.</p> | KD |
| 10 | <p>1. PROJECTAU SYLWEDDOL</p> <p>1.1. RHAGLEN GWAITH CYNNAL A CHADW HANFODOL</p> <p>1.2. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Adeiladau, y Rheolwr Rhaglenni Cyfalaf a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>1.3. <u>Adroddwyd</u>: Roedd y gwaith yn mynd rhagddo ar y safle yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac roedd y contractwyr allanol yn parhau'n ddiddyled.</p> <p>1.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad.</p> | |
| 11 | <p>Atodiad 1</p> <p>Cofnodion yr amrywiol Bwyllgorau a Grwpiau.</p> <p>Y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau Nodwyd.</p> <p>Y Pwyllgor Archwilio Nodwyd.</p> <p>Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn Nodwyd.</p> <p>Y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau Nodwyd.</p> | |
| 13 | <p>UFA</p> <p>Sian Wiblin – Undeb y PCS Gwahoddodd y Llywydd gynrychiolydd y PCS i wneud sylw ar y berthynas â'r Amgueddfa. Nododd Sian fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal unwaith yr wythnos i ystyried materion yn ymwneud â Covid-19. Roedd y berthynas â'r Amgueddfa a Llywodraeth Cymru'n dda gyda phob ochr yn cydweithio'n dda â'i gilydd.</p> <p>Gwen Williams Gwahoddodd y Llywydd Gadeirydd y Cyfeillion i wneud sylw. Roedd cyfathrebu â'r Cyfeillion yn gweithio'n dda diolch i'r gefnogaeth gan staff oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ddigwyddiadau a gweithgarwch perthnasol. Roedd Gwen yn ddiolchgar iawn i'r staff am eu cefnogaeth.</p> <p>Rheon Tomos Gwahoddodd y Llywydd yr aelod allanol o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i wneud sylw. Diolchodd i'r Llywydd am y gwahoddiad i fod yn bresennol a nododd ei bod hi'n ddefnyddiol iawn iddo fod yn bresennol o safbwynt ei swydd fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Nododd yn benodol y papurau mewn perthynas â Llywodraethu, Materion a Gedwir yn ôl i'r Bwrdd a'r Strategaeth. Mewn perthynas â newid enw i'r Pwyllgor Archwilio, nododd ymhellach mai'r gair Cymraeg am 'assurance' oedd <i>sicrwydd</i> ac y gellid cael <i>sicrwydd</i> mewn sawl ffordd wahanol. Nododd y byddai Archwilio Cymru'n rhoi llawer o sylw i'r sefyllfa ariannol, a'i fod yn falch o weld bod yr Amgueddfa'n delio â hyn ar lefel strategol. Roedd hyn yn hanfodol o safbwynt y sefydliad fel elusen.</p> <p>Paul Kindred Gwahoddodd y Llywydd Ddirprwy'r Is-adran a Phennaeth Strategaeth a Llywodraethu, Diwylliant a Chwaraeon i wneud sylw. Diolchodd i'r Llywydd am y gwahoddiad i fod yn bresennol. Roedd yn croesawu'r mewnbyn cadarnhaol iawn gan y staff a'r Bwrdd i'r modd roedd y sefydliad wedi ymateb yn ddiweddar i ystod o faterion yn cynnwys Covid-19, y gyllideb atodol, projectau a blaenoriaethau diwylliannol. Roedd yn croesawu'r drafodaeth gadarnhaol iawn a gafwyd heddiw. Roedd Paul o'r farn bod yr Amgueddfa'n bartner sylfaenol â</p> | |

| | | |
|--|--|--|
| | <p>Llywodraeth Cymru, a byddent yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi'r sefydliad.</p> <p>Datganiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol nad oedd yn gallu meddwl am gyfnod mwy heriol na'r un roedd pawb wedi'i wynebu dros y misoedd diweddar. Roedd wedi bod yn anodd i'r sefydliad a'r staff ac roedd yn bwysig bod y tîm Gweithredol a'r Bwrdd yn cydweithio er budd Cymru. Dyma'r unig ffordd y byddai'r Amgueddfa'n goroesi'r argyfwng yn llwyddiannus. Mewn ymateb diolchodd y Llywydd i'r Bwrdd a'r tîm Gweithredol am eu cefnogaeth a nododd yr angen i fod yn garedig a sensitif ac i ddangos parch yn ystod y cyfnod heriol hwn.</p> | |
| | <p>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf <u>Penderfynwyd:</u> Bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9:00am ar 10 Awst 2020.</p> | |